

Nodiadau Cyfarwyddyd Ymweliad Safle

Diben yr ymweliad safle yw rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i asesu'r cais yn ei leoliad.

Bydd pob ymweliad safle yn cael eu gwneud mewn preifat gan y Pwyllgor Cynllunio llawn.

Fel gwrthwynebydd, mae gyda chi hawl chi i annerch y Pwyllgor Cynllunio ar ôl ailymgynnull y cyfarfod. Fel ymgeisydd, does dim hawl gyda chi i annerch y Pwyllgor Cynllunio heblaw i ymateb i gyflwyniad llafar gan wrthwynebwyd.

Dylech nodi'r canlynol:

- Mae adroddiad y swyddog ar y cais ar gael i bawb sydd â diddordeb sy'n gwneud cais am gopi; bydd yr adroddiad hefyd ar gael ar www.sirgar.gov.uk;
- Dylid gwneud cais ysgrifenedig i annerch y Pwyllgor i'r Pennaeth Cynllunio o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad yr ymweliad safle. (h.y. am ymweliad safle ar ddydd Iau, dylai'r Pennaeth Cynllunio dderbyn y cais erbyn hanner dydd ar y dydd Gwener flaenorol);
- Gall dau wrthwynebydd am bob cais Cynllunio annerch y Pwyllgor, os byddant wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Cynllunio o leiaf dri diwrnod gwaith cyn yr ymweliad safle. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn gofyn i bob siaradwr gyfyngu eu hunain i uchafswm o bum munud yr un;
- Hysbysir yr ymgeisydd o leiaf 24 awr cyn yr ymweliad safle am unrhyw wrthwynebydd sy'n dymuno siarad.

Mae manylion llawn o'r Protocol a fabwysiadwyd ar gael oddi wrth y Swyddfa Gynllunio Leol neu ar-lein at www.sirgar.gov.uk.

Dylid nodi fod gan Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor bwerau i gael mynediad i dir ac eiddo preifat mewn perthynas â phennu ceisiadau cynllunio.

Nid yw'r cyfryw ddarpariaethau yn cynnwys cynrychiolwyr Cynghorau Tref neu Gymuned.

Gall perchennog y tir ymarfer ei hawl i atal partïon sydd â diddordeb rhag cael mynediad.